EISTEDDFOD GYD-ENWADOL PONTARGOTHI A'R CYLCH 2024

Cynhaliwyd Eisteddfod Gyd-Enwadol Pontargothi a'r Cylch yn Neuadd Goffa Pontargothi ar 8 Mawrth. Cafwyd dros chwech awr o gystadlu brwd yn yr adrannau cerdd a llefaru gyda ymgeisiau o safon uchel a niferus iawn yn adran y plant oed cynradd ac yn yr adran lenyddol. Hyfrydwch oedd gweld safon rhai o'r cyflwyniadau yn yr adran gelf a choginio. Cafwyd eisteddfod hynod hwyliog yn llawn cystadlu brwd.

Daeth cryn lwyddiant i gylch Felingwm gyda Chôr y Plant; y Côr Ardal a Pharti Unsain y Merched yn cyrraedd y brig. Enillwyr cystadleuaeth y canu emyn oedd Côr Nantgaredig ac enillydd yr her unawd oedd y Parchg. Emyr Gwyn Evans. Braf oedd gweld amryw o wahanol dalentau yn y cystadlaethau a Chriw Nantgaredig yn ennill cystadlaethau'r Penillion Topical a '*Sgen Ti Dalent?* adran hŷn gyda'u sgets *Nodau'r Nant*.

Yn cadw trefn ar yr holl gystadleuwyr ac yn arwain trwy'r eisteddfod roedd Anwen Evans, Eleri James ac Elonwy Phillips.

Dai Baker, Cynwyl Elfed oedd y beirniad cerdd ac Ann Evans, Llangynnwr oedd yn beirniadu'r llefaru a'r llenyddiaeth. Tasg Gillian Evans, Cynwyl Elfed oedd didoli'r gwaith llaw, llaw ysgrif, arlunio a choginio. Y cyfeilyddion oedd Geraint Rees, *Upland Arms* a Sylvia Thomas, Nantgaredig. Swyddogion y pwyllgor eisteddfod eleni oedd Heulwen Davies (Cadeirydd), Gwennan Thomas (Ysgrifennydd) a Jac Davies (Trysorydd). Y llywydd oedd un o aelodau Capel Sittim, Felingwm Isaf sef Heini Daniels-Gower, Cwmifor. Cafwyd ganddi araith bwrpasol yn cyfeirio at gyfnod bwrlwm ei bywyd hi pan yn ifancach yn y cylch ac am lwyddiant Eisteddfod Pontargothi.

Diolchwyd i bawb a oedd ynghlwm â'r achlysur gan ei gwneud yn ŵyl hynod arbennig eleni eto.

Canlyniadau:

Cerddoriaeth

Canu dan 7 oed: 1af Mali Jones, 2il William Tremlett, Cydradd 3ydd Mia O'Leary, Betsi O'Leary, Tomos Dunn
Canu 7 – 11 oed: 1af Idris McDonald, 2il Rhys Jones, Cydradd 3ydd Lowri Jones, Mared Jones, Rosa Lisly
Canu o dan 18 oed: 1af Elan James
Canu dros 18 oed: 1af Parchg. Emyr Gwyn Evans
Canu Emyn: 1af Côr Nantgaredig
Unsain dros 18 oed: 1af Merched Felingwm, 2il Tenoriaid Nantgaredig, 3ydd Dynion Felingwm
Côr Plant dan 18 oed: 1af Côr Felingwm
Chwarae Offeryn (Cynradd): 1af Harri Lisly, 2il Alys Tremlett, 3ydd Lois Douch
"Sgen Ti Dalent?" dan 18 oed: 1af Côr Felingwm, 2il Dion Jones, Cydradd 3ydd Lois Douch a Harri Lisly
"Sgen Ti Dalent?"dros 18 oed: 1af Nodau'r Nant, Nantgaredig, 2il Côr Felingwm
Côr Ardal: 1af Felingwm, 2il Nantgaredig

Amrywiaeth

Llefaru dan 7oed: 1af Mair Jones, 2il Tomos Dunn, Cydradd 3ydd Mia a Betsi O'Leary
Llefaru 7–11 oed: 1af Defi Richards, Cyd. 2il Rhys Jones a Mared Jones, Cydradd 3ydd Idris MacDonald a Rosa
Llefaru o dan 18 oed: 1af Elan James
Darllen Emyn (Cynradd): Cyd. 1af Lois Douch a Betsan Jones, Cyd. 2il Harri Lisly a Mared Jones, 3ydd Defi Richards
Ateb 5 Cwestiwn Iau: Cydradd 1af Tomos Dunn, William Tremlett a Mali Jones
Ateb 5 Cwestiwn Cynradd: 1af Defi Richards, Cyd. 2il Lowri Jones a Harri Lisly, Cyd. 3ydd Alys, Betsan, Lois, Iwan

Ateb 5 Cwestiwn Uwchradd: 1af Elan James
Araith Ar Y Pryd dros 18 oed: 1af Gwenann Thomas, 2il Jac Davies, 3ydd John James
Llythyr Caru: 1af Elonwy Phillips, 2il Moira Blakeman
Brawddeg ar y Gair "LLWYDDIANT": 1af Lloyd Thomas, 2il Elonwy Phillips
Brysneges ar y llythyren "D":
Cyd. 1af David Jenkins ac Elonwy Phillips, Cyd. 2il Eleri James a Lloyd Thomas, Cyd. 3ydd Myfi Jones ac Elonwy Phillips
Cyfansoddi Emyn: 1af Elonwy Phillips, 2il Myfi Jones
Telyneg Ysgafn: 1af Elonwy Phillips, 2il Moira Blakeman
Gorffen Limrig: Cydradd 1af Lloyd Thomas ac Elonwy Phillips, 2il Elonwy Phillips, 3ydd David Jenkins
Cyfansoddi a Chanu Penillion Topical: 1af Nantgaredig

Llawysgrif
O Dan 7 oed: 1af Mali Jones
7 – 11 oed: 1af Alys Tremlett, 2il William Tremlett, 3ydd Rhys Jones
Dan 18 oed: 1af Elan James
Dros 18 oed: 1af Eleri Peach, 2il Lloyd Thomas, 3ydd Gwenann Thomas

Arlunio
Dan 7 oed: 1af William Tremlett, 2il Dion Jones
7 – 11 oed: 1af Alys Tremlett, 2il Betsan Jones, 3ydd Betsan Jones
Dan 18 oed: 1af Elan James, 2il Elan James
Dros 18 oed: 1af Carol Jones, 2il Carol Jones

Ffotograffiaeth
Agored: 1af Gwenann Thomas, 2il Gwenann Thomas, 3ydd Steffan Wyn James

Gwaith llaw
7 – 11 oed: 1af Betsan Jones
O Dan 18 oed: 1af Elan James, 2il Elan James
Agored: 1af Carol Jones, 2il Sylvia Thomas, 3ydd Carol Jones

Coginio
Cynradd: 1af Betsi O'Leary, 2il Mia O'Leary, 3ydd Alys Tremlett
Uwchradd: 1af Elan James
Dros 18 oed: 1af Sylvia Thomas, 2il Steffan Wyn James, 3ydd Jac Davies